HEDDLU POLICE

## Cerdyn Snap 1

Mae yna barc bach ar gyfer plant ifanc.

Yn y parc mae rhai plant yn cael eu gorfodi oddi ar y siglenni gan blant hŷn, maent hefyd yn galw enwau cas arnynt.

Nawr mae’r plant hŷn yn rhoi’r siglenni’n sownd wrth y bariau uchaf fel na all neb chwarae arnynt.






## Cerdyn Cosb

Byddai’r heddlu yn mynd â’r plant hŷn adref o'r parc ac ni fyddent yn cael chwarae yn y parc mwyach.

Os gwelir hwy yn y parc eto, bydd yr heddlu yn mynd â nhw adref i dreulio gweddill y diwrnod gartref.

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

## Cerdyn Snap 2

Mae grŵp o rai yn eu harddegau yn y parc lleol.

Maent yn yfed alcohol ac yn fandaleiddio'r lle.

Mae rhai o'r bechgyn yn tynnu ar fariau'r bandstand ac mae'r bariau'n dechrau plygu, mae'r gât eisoes wedi cael ei rhwygo i ffwrdd.





## Cerdyn Cosb

Cymerir yr alcohol oddi ar y rhai yn eu harddegau. Rhoddir dirwy i bob un a ddelir yn fandaleiddio am y difrod a achoswyd ganddynt.

Fe'u gorfodir hefyd o wneud y parc i edrych yn dda unwaith yn rhagor drwy blannu blodau a chlirio'r sbwriel.

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

## Cerdyn Snap 3

Mae bachgen yn ei arddegau yn reidio ei feic modur i fyny ac i lawr y stryd lle mae llawer o blant ifanc yn chwarae.

Mae'r plant yn cael ofn ac maent i gyd yn mynd adref.

Mae'r beic modur yn aros yn y stryd am y rhan fwyaf o'r dydd, felly mae'r plant yn aros i mewn.






## Cerdyn Cosb

Mae'r heddlu yn atafaelu beic modur y bachgen.

Nid yw'n ei gael yn ôl am 3 mis.


Os bydd yn reidio ei feic yn anghyfreithlon eto yn y stryd, atafaelir y beic am 12 mis.

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

# Cerdyn Snap 4

Mae grŵp o 6 o blant yn cicio’u sodlau ac yn gwneud llawer o sŵn ar gornel stryd.

Mae menyw sy’n byw yn un o’r tai yn gofyn iddynt symud, ond mae’r plant yn ei hanwybyddu.






# Cerdyn Cosb

Nawr mae’n rhaid i'r plant gael eu hatal rhag ymwneud â’i gilydd.

Os bydd mwy na dau blentyn o gwmpas y lle gyda’i gilydd, bydd yr heddlu'n mynd â nhw adref am weddill y diwrnod.

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

## Cerdyn Snap 5

Mae bachgen ifanc allan ar y stryd am naw o'r gloch yn nos.

Mae'n curo ar ddrysau ei gymdogion ac yna'n rhedeg i ffwrdd.





## Cerdyn Cosb

Rhoddir cyrffiw i'r bachgen, yn ei rwystro rhag amharu ar ei gymdogion.

O hyn ymlaen mae'n rhaid iddo fod adref erbyn 7 o'r gloch bob nos am y chwe mis nesaf.

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent